# SWYDD DDISGRIFIAD

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | **CYFIEITHYDD** |
| **STATWS:** | **0.6 (22 AWR YR WYTHNOS) , PARHAOL** |
| **CYFLOG** | **GRADDFA 6 - £27, 287 - £29, 114 PRO RATA Y FLWYDDYN** |
| **HAWL GWYLIAU:** | **28 DIWRNOD Y FLWYDDYN PRO RATA** |
| **LLEOLIAD** | **LLEOLIR Y SWYDD AR UN O SAFLEOEDD GRŴP LLANDRILLO MENAI (I'W DRAFOD), NEU CEWCH WEITHIO O'CH CARTREF** |
| **YN ATEBOL I** | **Y PRIF GYFIEITHYDD, RHEOLWR SGILIAITH A DATBLYGU DWYIEITHRWYDD, PENNAETH DATBLYGU DWYIEITHRWYDD AC ADNODDAU DYSGU** |

## ROLAU ALLWEDDOL

- Cefnogi gwaith addysgu a rheolaeth ddwyieithog Grŵp Llandrillo Menai drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu.

- **Bydd y dyletswyddau penodol yn cynnwys:**

1. Cyfrannu at ddarparu Gwasanaethau Cyfieithu GLlM, drwy gyfieithu testunau cwricwlaidd a gweinyddol a deunydd marchnata o'r Saesneg i'r Gymraeg ac i'r gwrthwyneb, yn unol â blaenoriaethau a drefnir o ddydd i ddydd gan y Prif Gyfieithydd
2. Golygu a/neu brawf-ddarllen testunau ysgrifenedig gan aelodau eraill y Tîm Cyfieithu
3. Golygu a/neu brawf-ddarllen testunau ysgrifenedig a gyflwynir gan staff GLlM
4. Cynghori staff GLlM ar faterion yn ymwneud â chyfieithu, yn cynnwys ymholiadau ynglŷn â gramadeg a thermau arbenigol
5. Ymgymryd â hyfforddiant a datblygiad personol
6. Mynychu cyfarfodydd y Tîm Cyfieithu, ac unrhyw gyfarfodydd perthnasol eraill yn y coleg
7. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill sy'n gydnaws â'r swydd ac sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth cyfieithu a datblygu dwyieithrwydd y coleg ar gais y Prif Gyfieithydd, y Pennaeth Datblygu Dwyieithrwydd ac Adnoddau Dysgu neu'r Prif Weithredwr.

**MANYLION DEILIAD Y SWYDD**

**Cyfieithydd**

**Gofynion hanfodol**

1. Gradd brifysgol yn y Gymraeg neu bwnc perthnasol
2. Aelodaeth sylfaenol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn dilyn llwyddiant yn yr arholiad Saesneg i Gymraeg neu barodrwydd i weithio tuag at aelodaeth sylfaenol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru
3. Sgiliau llafar ac ysgrifenedig o'r radd flaenaf yn y Gymraeg a'r Saesneg
4. Profiad ymarferol o gyfieithu
5. Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ardderchog, yn cynnwys profiad o ddefnyddio pecyn meddalwedd Cysgair
6. Y gallu i reoli rhaglen waith a blaenoriaethu gwaith yn effeithiol
7. Y gallu i weithio'n gyfrinachol
8. Y gallu i ymateb yn rhagweithiol i ymholiadau a gofynion
9. Y gallu i weithio mewn tîm
10. Sgiliau rhyngbersonol effeithiol
11. Brwdfrydedd dros agenda addysg ddwyieithog a hyrwyddo defnydd y Gymraeg

**Gofynion dymunol**

1. Aelodaeth gyflawn o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn dilyn llwyddiant yn yr arholiad Saesneg i Gymraeg
2. Profiad o gyfieithu mewn sefydliad addysgol
3. Profiad o ddefnyddio cof cyfieithu
4. Y gallu i gyfieithu ar y pryd
5. Profiad o waith swyddfa